



Teitl y cyfarfod: Adroddiad cynnydd gan Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Dyddiad y cyfarfod: 25 Medi 2018

Lleoliad: Canolfan Ymchwil
Ucheldir Pwllpeiran,
Cwmystwyth,
Aberystwyth
SY23 4AB

Presennol: Zoe Henderson (aelod bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a chadeirydd)
Charlotte Priddy (Undeb Amaethwyr Cymru)
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)
Eirwen Williams (Menter a Busnes)
Stephen Bradley (Dŵr Cymru)
Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)
Marc Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Brian Pawson (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Matt Lowe (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Jeremy Frost (Llywodraeth Cymru)
Jamie McCoy (AHDB)
James Dowling (Llywodraeth Cymru)
Kirsten Hughes (HCC)
Geraint Weber (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Rob McCall (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Helen Haider (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Ymddiheuriadau: Betsan John (Llywodraeth Cymru)
Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)
Rachel Lewis-Davies (Undeb Amaethwyr Cymru)
Ryan Davies (Llywodraeth Cymru)
Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru)
Sarah Hetherington (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Meinir Wigley (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Bob Vaughan (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Yn bresennol: Arfon Williams (Cyswllt Amgylchedd Cymru) Eitem 14 a 15 yn unig

Rhi Eitem
f

Cam
gweith
redu

3. Diweddariad ar brosiect cyngor ffermydd Ilaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae wyth swyddog amaethyddol bellach ar waith i gyflawni'r gwaith prosiect o roi cyngor i ffermydd Ilaeth. Mae hyfforddiant ymsefydlu wedi'i gwblhau ac mae staff Cyfoeth Naturiol Cymru newydd wrthi'n gwneud ymweliadau ag aelodau staff profiadol. Mae oddeutu 350 o ffermydd Ilaeth am gael ymweliad yn 2018/19. Daw'r rhan fwyaf o'r swyddogion newydd o gefndir ffermio tra bo gan y rhai eraill sgiliau trosglwyddadwy perthnasol. Mae hyfforddiant wedi'i gynnal yn adeilad CFfl yn Llanfair-ym-Muallt gyda chymorth gan AHDB, Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm Llywodraeth Cymru a Cyswllt Ffermio. Ar ôl hynny, bydd y swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru newydd yn mynd i Brifysgol Harper Adams ar 10 Hydref ar gyfer hyfforddiant allanol ychwanegol.

Bydd pob fferm a fydd yn derbyn ymweliad wedi cael asesiad risg o flaen llaw. Mae llythyr cyn-ymweliad wedi'i ddrafftio a'i anfon at undebau ffermio am sylwadau. Lle mae cynghorwyr Cyswllt Ffermio wedi rhoi adroddiad seilwaith i fferm, gyda chopi wedi'i ddarparu i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r amserlenni ar gyfer gwelliannau wedi'u cytuno arnynt, ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal ymweliad ychwanegol.

Nid yw'r gronfa ddata ar gyfer casglu gwybodaeth am y fferm yn barod eto, felly bydd gwybodaeth yn cael ei nodi ar daenlen gydag adroddiad safonol i gael ei ddrafftio ar gyfer pob fferm. Nid oes unrhyw fwrriad o ddyblygu gwaith sy'n cael ei wneud gan eraill, e.e. Afonydd Cymru. Fodd bynnag, os yw fferm o fewn dalgylch corff dŵr sy'n methu o dan y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr, yna gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddal ymweld â hi. Bydd gan y swyddogion newydd Warrant Lefel 1 (Sylfaenol). Bydd hysbysiadau Rheoliad 7 Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol yn cael eu cyflwyno ar ffermydd yn dibynnu ar y risg gan fod angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos fod 'risg sylweddol o lygredd' i gyflwyno'r hysbysiadau hyn. Bydd y data sy'n cael ei gasglu trwy'r prosiect hwn yn cael ei ddefnyddio i hysbysu gweithgarwch rheoleiddio yn y dyfodol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n bosibl y bydd nifer yr hysbysiadau Rheoliad 7 sy'n cael eu cyflwyno'n cynyddu o ganlyniad i'r prosiect hwn. Nid adeiladu storfa slyri newydd i gynyddu capasiti fydd yr unig opsiwn i sicrhau bod ffermwyr yn bodloni'r gofyniad cynhwysedd storio sylfaenol o bedwar mis o dan y Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol. Mae atebion

eraill yn cynnwys gorchuddio cyfleusterau storio a buarthau a dargyfeirio dŵr glân oddi wrth gyfleusterau storio. Bydd ffermwyr sy'n gofyn am gyngor technegol yn cael eu cyfeirio at Cyswllt Ffermio. Cadarnhawyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i sicrhau bod ffermwyr yn cael eu cyfeirio at y data glawiad sydd ei angen i sicrhau bod cyfleusterau storio slyri yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol.

Cam Gweithredu 1: Bydd Matt Lowe yn sicrhau bod dyddiad ar p'un a yw slyri'n cael ei roi ar dir neu ei allforio ymhlith y wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan swyddogion newydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

4. Graff llygredd amaethyddol 2010–2018

Trafododd y grŵp nifer yr achosion o lygredd amaethyddol a gadarnhawyd i ddŵr (fesul sector) hyd at fis Awst 2018. Mae'r set ddata ragarweiniol hon yn diweddarar'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad interim i Ysgrifennydd y Cabinet. Mae angen gwaith pellach i nodi pa mor ddifrifol yw'r digwyddiadau a gadarnhawyd.

Gallai data arall fod ar gael i helpu i roi data digwyddiadau llygredd amaethyddol Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cyd-destun. Er enghraifft, mae gan Dŵr Cymru ddata ar gael ar y nifer o ddigwyddiadau llygredd eithafol sydd wedi arwain at gau man tynnu dŵr. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar y cydberthyniad rhwng tywydd gwael a nifer y digwyddiadau o lygredd. Hefyd, bydd dosbarthiad interim y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer 2018 ar gael cyn bo hir.

Trafododd y grŵp hefyd y ffordd orau o hyrwyddo hunanadrodd am ddigwyddiadau gan ffermwyr. Yn ystod 2018, cafodd dim ond 2% o ddigwyddiadau eu hunanadrodd yn ôl pob golwg ond mae casglu gwybodaeth ar hyn ond wedi bod yn rhan orfodol o system adrodd am ddigwyddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru (System Cofnodi Digwyddiadau Cymru) am y ddau neu dri mis diwethaf. Os bydd ffermwr yn hunanadrodd digwyddiad i Cyfoeth Naturiol Cymru, nodwyd y bydd y cam hwn yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar y canlyniad gorfodi.

Cam Gweithredu 2: Geraint Weber / Marc Williams i gysylltu â chydweithwyr o fewn Dŵr Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'u gwaith i sicrhau y gellir rhoi data llygredd amaethyddol Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cyd-destun ehangach.

Trafododd y grŵp y manteision sydd ynghlwm wrth ofyn i aelodau ysgrifennu erthyglau ar ystadegau llygredd amaethyddol a chyhoeddi'r

manteision o hunanadrodd. Yn ystod y ffilm fer ar lygredd amaethyddol a gafodd ei chynhyrchu gan Cyswllt Ffermio yn ddiweddar, ceir y datganiad y bydd hunanadrodd digwyddiadau'n cael ei ystyried wrth bennu canlyniadau gorfodi. Er hyn, mae llawer o ffermwyr yn cael eu hannog gan eu cynghorwyr cyfreithiol i beidio â hunanadrodd ac maent yn parhau i fod yn anymwybodol y bydd hyn yn lleihau costau gwaith ymchwiliol Cyfoeth Naturiol Cymru ac unrhyw gostau y gallai'r llysoedd eu gosod.

Cam Gweithredu 3: Brian Pawson i weithio gyda thîm cyfreithiol Cyfoeth Naturiol Cymru a Creighton Harvey i ddatblygu negeseuon priodol gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd a chanlyniadau gorfodi canlynol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch y posibilrwydd o gael targedau llygredd amaethyddol, yn debyg iawn i'r rhai sydd gan y cwmnïau dŵr (e.e. targed 75% ar gyfer hunanadrodd) i fonitro perfformiad.

Cafodd ei amlygu fod rhai ffermwyr yn parhau i anwybyddu gofynion y Cod Arferion Amaethyddol Da mewn perthynas â defnyddio slyri a bod gwaith lleadaenu'n digwydd yn aml yn ystod tywydd anaddas.

5. Diweddariad Cronfa Bontio'r UE Llywodraeth Cymru

Eglurodd Brian Pawson na chafodd cynnig Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 'Gwella Cynaliadwyedd Cadwyni Cyflenwi Amaethyddol drwy Wella Ansawdd Dŵr' (fel y'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 10 Awst) ei gymeradwyo ar gyfer symud ymlaen i'r cam nesaf fel rhan o'r ail gyfran. Mae'r sector amgylcheddol a materion gwledig eisoes wedi derbyn arian sylweddol. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio cael adborth gan Lywodraeth Cymru ar y cynnig, gan edrych ar y posibilrwydd iddo gael ei ddiwygio a'i ailgyflwyno mewn cylchau ymgeisio dilynol.

Cam Gweithredu 4: Brian Pawson i adrodd yn ôl ar unrhyw adborth pellach gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chais Cronfa Bontio'r UE ar ansawdd dŵr.

6. Rhaglen gyflwyno llygredd amaethyddol Cyswllt Ffermio

Adroddodd Eirwen Williams fod naw digwyddiad ffermio cynaliadwy wedi digwydd yn ystod mis Medi, a gwnaeth rhwng 150 a 450 o ffermwyr fynychu pob sesiwn. Yn ôl pob golwg, roedd mwy o ffermwyr am gael cyngor ar reoli glawiad a lleihau maint y slyri y mae angen iddynt ei storio yn hytrach na gwneud cais am storfeydd slyri newydd trwy'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

Mae Cyswllt Ffermio bellach yn trefnu digwyddiadau ar ffermydd o fewn

y dalgylchoedd a dargedir sydd wedi cael eu nodi gan yr is-grŵp. Mae fferm i gynnal y digwyddiadau hyn bellach wedi'i sicrhau ym mhob un ond un o'r dalgylchoedd. Nid yw Cyswllt Ffermio wedi llwyddo eto i gael data diweddar ar gyfeiriadau ffermydd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â hyn.

Cam Gweithredu 5: Betsan John (Llywodraeth Cymru) i roi diweddariad ar alluogi Cyswllt Ffermio i gael mynediad at ddata presennol ar gyfeiriadau ffermydd.

Mae pum grŵp Agrisgôp wedi'u ffurfio o ganlyniad i'r digwyddiadau Cyswllt Ffermio diweddar. Yn ogystal, mae 26 o geisiadau grŵp wedi'u gwneud ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, er nad yw'r rhain i gyd yn ymwneud ag ansawdd dŵr.

Cam Gweithredu 6: Cyswllt Ffermio i ddosbarthu'r ffigurau terfynol ynghylch y digwyddiadau ffermio cynaliadwy a'r rhestr o ddigwyddiadau ar ffermydd.

Gwnaeth Zoe Henderson longyfarch Cyswllt Ffermio ar eu rhaglen waith ardderchog.

7. "Brexit a'n Tir" (Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru)

Trafododd y grŵp yr achos dros gyflwyno ymateb cyfunol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Mae gan Bennod 7 y Papur Gwyrdd gysylltiadau clir ag adroddiad interim Fforwm Rheoli Tir Cymru, gyda llawer o debygrwydd rhwng y ddau. Cytunodd y grŵp i gyflwyno ymateb byr i'r ymgynghoriad, gan dynnu sylw at werth defnyddio is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru fel "bwrdd seinio" ar gyfer trafod ymagweddau at faterion rheoleiddio yn y dyfodol.

Cam Gweithredu 7: Rob McCall a Brian Pawson i baratoi ymateb byr i'r Papur Gwyrdd ar ran is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a chylchredeg y drafft i'r aelodau i gael ei gymeradwyo.

8. Sylwadau Cyswllt Amgylchedd Cymru ar adroddiad interim Fforwm Rheoli Tir Cymru

Cyn y cyflwyniad gan Stephen Marsh-Smith ac Arfon Williams, cafwyd trafodaeth fer ar y ffyrdd y gallai Cyswllt Amgylchedd Cymru gyfrannu at waith yr is-grŵp yn y dyfodol. Nodwyd bod Afonydd Cymru (un o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru) wedi bod yn cynnal ymweliadau fferm yn ne-orllewin Cymru gyda chyllid a ddarperir gan Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae tua 50 o adroddiadau fferm wedi cael eu cwblhau hyd yn hyn mewn dau ddalgylch afon. Mae swm cyfyngedig o arian grant (10K i'w ddosbarthu ar gyfradd uchaf o 50% fesul prosiect) ar gael i ddarparu gwelliannau seilwaith ar ffermydd ac mae wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn ymweliadau.

Cam Gweithredu 8: Helen Haider i ddsbarthu copi o lythyr ymateb Zoe Henderson i Cyswllt Amgylchedd Cymru.

Roedd aelodau'r is-grŵp yn pryderu nad yw llawer o aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o gyflwr dalgylchoedd lleol. Teimlwyd y gallai'r gwahanol sefydliadau sy'n gysylltiedig â Cyswllt Amgylchedd Cymru helpu i godi lefelau diddordeb cymunedol yn y dyfodol.

Ffordd arall y gallai'r is-grŵp weithio'n agosach gyda Cyswllt Amgylchedd Cymru fyddai ar bynciau penodol fel agweddau rheoleiddiol Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Gallai hyn alluogi datblygu dull cydlynol ar draws y sector amaethyddol a chyrrff anllywodraethol amgylcheddol, a allai wedyn gael ei adrodd yn ôl i Ysgrifennydd y Cabinet.

Cytunwyd y byddai'r materion hyn yn cael eu lleisio gyda chynrychiolwyr Cyswllt Amgylchedd Cymru yn ystod sesiwn y prynhawn.

9. Materion cynllunio awdurdodau lleol

Nododd Robert McCall fod rhywfaint o ddryswch wedi bod yn y gorffennol rhwng yr awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru dros gyfrifoldebau penodol ynglŷn â delio â cheisiadau cynllunio, er bod yr anawsterau hyn bellach yn cael eu datrys. Mae Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin ac Afonydd Cymru eisoes wedi cwrdd â Chyngor Sir Caerfyrddin ac mae cyfarfod pellach sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn cael ei gynllunio. Mae'r ffocws hyd yn hyn wedi bod ar Sir Gaerfyrddin oherwydd cyffredinrwydd y sector llaeth a graddfa materion llygredd amaethyddol.

Mae angen ymagwedd Cymru gyfan at y materion cynllunio a gafodd eu nodi yn adroddiad interim Fforwm Rheoli Tir Cymru hefyd. Mae Rob McCall yn anelu at sefydlu digwyddiad yn gynnar yn 2019 a bydd yn cysylltu ag is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru fel bod sefydliadau sy'n aelodau'n gallu rhoi'r wybodaeth fwyaf diweddar i ffermwyr.

Cam Gweithredu 9: Rob McCall i ddsbarthu gwybodaeth bellach am faterion cynllunio i holl aelodau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru cyn y cyfarfod cynllunio gweithredu ar 8 Hydref.

10. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp yn y dyfodol

- 8 Hydref – Cyfarfod Cynllunio Gweithredu (swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth)
- 11 Hydref – yn dilyn cyfarfod llawn Fforwm Rheoli Tir Cymru (swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth)
- 7 Tachwedd (swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth)
- 12 Rhagfyr (swyddfeydd Undeb Amaethwyr Cymru, Aberystwyth)

11. Cofnodion o'r cyfarfod ar 22 Awst a chamau gweithredu sydd heb eu cymryd

Cam Gweithredu 1: Creighton Harvey i ddsbarthu taflen o ddiwyddiad diweddar NFU Cymru / Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin i weddill yr is-grŵp.

Cam Gweithredu 6: AHDB – Esboniodd Jamie McCoy nad yw rhaglen dewin slyri AHDB ar gael ar hyn o bryd, felly nid yw aelodau'n gallu ei threialu.

Cam Gweithredu 10: Dylid anfon unrhyw sylwadau gan aelodau ynghylch y cofnodion drafft ar gyfer 25 Medi at Helen Haider / Marc Williams erbyn diwedd y diwrnod busnes ar 9 Hydref. Bydd hyn yn galluogi i fersiwn derfynol o'r cofnodion gael ei chyfieithu a'i lanlwytho i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

12. Diweddariad ar weithgareddau llaeth perthnasol

Roedd Zoe Henderson wedi mynychu Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol Dŵr Cymru ar 19 Gorffennaf i siarad am waith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Roedd Zoe hefyd wedi mynychu cyfarfod bwrdd Dŵr Cymru yn ogystal â chyfarfod Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Dyfrdwy a Chlwyd.

Mae Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gysylltiedig â gwaith yn ymwneud â chael gwared â rhwystrau o nifer o ddalgyloedd afon yn Sir Gaerfyrddin. Mae Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin hefyd wedi sicrhau 10K ychwanegol i gael gwared ar ffromlys chwarennog.

13. Unrhyw fusnes arall

Trafododd y grŵp a allai rhywun ysgrifennu erthygl yng nghylchlythyr AHDB Forage for Knowledge mewn perthynas â llygredd amaethyddol.

Tynnodd Brian Pawson sylw at ymgynghoriad gweithio gyda'n gilydd a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru:

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/consultations/our-own-consultations/?lang=cy>

Dyma'r ymgynghoriad cyntaf yn y cyfnod cyn cyhoeddi'r cynlluniau rheoli basn afon wedi'u ddiweddarau ar gyfer cyfnod 2011–27. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu safbwyntiau ar sut y byddai rhanddeiliaid yn hoffi cymryd rhan mewn adnewyddu ac adolygu'r cynlluniau hyn. Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 22 Rhagfyr 2018.

Soniodd Jeremy Frost y bydd cynigion dal a rhyddhau gorfodol (sy'n effeithio ar bysgotwyr â thrwyddedau gwialen) yn mynd gerbron

ymchwiliad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2018. Mae cyfle i Fforwm Rheoli Tir Cymru gyflwyno sylwadau cyn belled â bod hyn yn digwydd cyn diwedd mis Mawrth 2019.

14. Cyswllt Amgylchedd Cymru

Rhoddodd Zoe Henderson gyflwyniad i waith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ac roedd yn gobeithio y byddai'n bosibl gweithio'n agosach gyda Cyswllt Amgylchedd Cymru yn y dyfodol fel rhan o leihau llygredd amaethyddol.

Esboniodd Dr Stephen Marsh-Smith (Afonydd Cymru) fod Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cynnwys y rhan fwyaf o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru. Mae dros 40 o aelodau ac mae pob un ohonynt hefyd yn elusennau cofrestredig. Rhoddodd Stephen gyflwyniad byr yn cwmpasu gwaith Afonydd Cymru (y sefydliad ambarél sy'n cynrychioli'r chwe ymddiriedolaeth afonydd ledled Cymru), gan gyfeirio'n arbennig at un o'r rhain (Sefydliad Gwy ac Wysg).

Mae gwaith y cynghorwyr fferm a gyflogir gan Afonydd Cymru wedi'i ariannu'n rhannol gan ymgymeriadau gorfodi sy'n deillio o ddigwyddiadau llygredd blaenorol. Mae cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar leihau maint llygredd gwasgaredig, e.e. trwy hyrwyddo tanblannu india-corn a defnyddio rhaglenni meddalwedd fel SCIMAP i ragweld lle bydd problemau llygredd yn fwyaf tebygol o ddigwydd ac unrhyw ymyriadau a fydd yn fwyaf tebygol o lwyddo.

Cafodd y dull dymunol ei grynhai fel a ganlyn:

- darparu model ar gyfer rheoli llygredd (trwy ddull wedi'i dargedu a dull lleol)
- sicrhau prisiau teg i ffermwyr
- darparu gorfodi teg a chadarn
- darparu cyngor annibynnol a chymhellion
- sicrhau deddfwriaeth a rheoliadau clir gan y llywodraeth

Croesawodd Arfon Williams (RSPB) adroddiad interim Fforwm Rheoli Tir Cymru ond tynnodd sylw at y ffaith fod Cyswllt Amgylchedd Cymru yn awyddus i weld datblygu cynllun gweithredu sy'n egluro pwy sy'n ymwneud â datblygu pob un o'r argymhellion yn ogystal â'r amserlen.

Cyflwynodd Arfon gyflwyniad wedyn ar waith yr RSPB gyda ffermwyr yng Ngwent trwy'r prosiect Gwastadeddau Byw. Rhaglen tair blynedd yw hon sydd wedi'i hariannu dan y Cynllun Rheoli Cynaliadwy a'i nod yw ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd yn gyffredinol yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar adar. Nod y prosiect yw dangos y gall gofalu am ddŵr, natur a bwyd ar y cyd fod yn ffordd broffidiol o ffermio. Bydd NFU Cymru, Cyswllt Ffermio a Cyfoeth Naturiol Cymru oll yn rhan o'r grŵp llywio yn ogystal â deg ffermwr lleol. Mae llawer o synergeddau gydag adroddiad interim Fforwm Rheoli Tir Cymru o ran cyfuno cyngor ac arweiniad a thechnoleg newydd ac wrth geisio gweithio'n agosach ar y

cyd trwy sefydlu grŵp Agrisgôp newydd. Byddai croeso i sylwadau a chynngor pellach gan aelodau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Yn dilyn y cyflwyniadau, cafwyd cyfle i gael rhagor o gwestiynau ac eglurhad. Dilynwyd hyn gan drafodaeth ar y ffyrdd y gallai Cyswllt Amgylchedd Cymru ac is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru gydweithio'n agosach yn y dyfodol. Un posibilrwydd a gafodd ei groesawu gan bawb oedd y syniad y gallai Cyswllt Amgylchedd Cymru ac is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddefnyddio'r cyfleoedd a ddarperir gan y Papur Gwyrdd i gyhwyn trafodaeth ar y cyd ar natur rheoleiddio yn y dyfodol.

15. Cyflwyniad a thaith o Bwllpeiran

Rhoddodd Dr Meriecia Fraser o Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig gyflwyniad ynglŷn â'r ymchwil sy'n cael ei chynnal ym Mhwllpeiran. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu gwahanol opsiynau rheoli mewn lleiniau i adfer bioamrywiaeth fotanegol ac edrych ar effeithiau hirdymor y cyfundrefnau rheoli ar wasanaethau ecosystemau ehangach.

Siaradodd Dr Fraser hefyd am y prosiectau eraill, gan gynnwys profi effeithiolrwydd technegau adfer amgen fel opsiynau ar gyfer dwysáu cynaliadwy ar dir pori parhaol, cynladwyedd cnydau yn wyneb newid hinsawdd a gwleidyddol, y defnydd o *Miscanthus* fel ffynhonnell gwellt gwely amgen, a thyfu cennin Pedr ar gyfer cynhyrchu galantamine (i'w ddefnyddio fel triniaeth ar gyfer clefyd Alzheimer).

Dilynwyd y cyflwyniad gan daith o amgylch y lleiniau arbrofol dan arweiniad John Davies. Roedd y daith hefyd yn cynnwys edrych ar y gwlyptiroedd adeiledig integredig, a gafodd eu hadeiladu fel ffordd o brofi effeithiolrwydd triniaethau dŵr halogedig gwahanol cyn gollwng i gwrs dŵr.